COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 16 RHAGFYR 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd A W Ulberini-Williams – Cadeirydd ar gyfer y Cyfarfod

| | | |
|---|---|---|
| J P D Blundell | RM Granville | G H Haines |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| H J David | S J Griffiths | M L Hughes | RL Penhale-Thomas |
| T Thomas | A J Williams | E D Winstanley | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd F D Bletsoe

Y Cynghorydd John Spanswick, Arweinydd a'r Cynghorydd Melanie Evans, Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd)

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Cynghorydd Martyn Jones. | Aelod Cabinet dros y Gwasanaeth Addysg a Phobl Ifanc |
| Councillor Eugene Caparros | Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai |
| Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet dros Gymunedau |
| | |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaethau Partneriaethau |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Elaine Winstanley – eitem 4 – Personol - WBO 4 - fel llywodraethwr Ysgol Y Ferch O'r Sger ac Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin a WBO 7 - fel rhywun sy'n gyflogedig gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol AWEN sy'n rheoli Pafiliwn y Grand, Neuadd y Dref Maesteg a'r llyfrgelloedd.

Y Cynghorydd Richard Granville - eitem 4 - Personol - diddordeb yn Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin.

## 136. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Rhagfyr 2024 |

## 137. Perfformiad Chwarter 2 2024/2025

<table>
<tr><td>Penderfyniad</td><td>PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a’r ceisiadau canlynol am ragor o wybodaeth:<br><br>Argymhellion<br><br>1. Croesawyd yr ymrwymiad gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a’r Swyddogion y byddai nifer a ffocws yr Amcanion Lles yn cael eu hadolygu ac y byddai ymarfer i benderfynu ar y Dangosyddion Perfformiad/Ymrwymiadau mwyaf pwysig, y rhai a ddylai barhau a ph’un a ddylai rhai gael eu diddymu neu eu diwygio. Argymhellodd y Pwyllgor, er mwyn gallu darparu sicrwydd mesuradwy, y dylai’r naratifau a gynhwysir ar y dangosfwrdd ddarparu mwy o fanylion, gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw ariannu penodol, cynnydd ar brosiectau neu fentrau.<br><br>2. Argymhellodd y Pwyllgor ar gyfer Adroddiadau Perfformiad yn y flwyddyn ar gyfer y dyfodol, y dylid ychwanegu serennig, neu ryw fath arall o nod ei ychwanegu at unrhyw Ddangosydd Perfformiad sy’n cael ei adnabod i gael ei ddileu wedi’r cyfarfod blynyddol o’r Cyngor llawn.<br><br>3. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i amserlen trefnu Adroddiad Perfformiad yn y dyfodol, gan dynnu sylw at y ffaith fod y Pwyllgor yn cael ei ofyn i ystyried Perfformiad Chwarter 2 yr Awdurdod bron ar ddiwedd Chwarter 3.<br><br>4. Argymhellodd y Pwyllgor, yn dilyn penodiad Prif Weithredwr newydd, y dylid ceisio cael eu barn hwy ynghylch sut roedden nhw’n rhagweld y byddai adrodd ar Berfformiad yn digwydd.<br><br>5. Ystyriodd y Pwyllgor fod perfformiad Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (DFG) yn cynrychioli risg corfforaethol ac argymhellodd y canlynol ar gyfer adrodd am DFGau yn y dyfodol:<br><br>a. Mae’r targed adrodd yn dangos data oedd yn cael eu priodoli i achosion a etifeddwyd a data a briodolwyd i gymwysiadau newydd ar wahân, yn ogystal â dangos bod y data cyfunol a gynhwyswyd eisoes mewn adroddiadau perfformiad,<br>b. Y dylai’r targed o 210 diwrnod gael ei adolygu a bod ystyriaeth yn cael ei roi i darged llai uchelgeisiol ac un y gellir ei gyflawni a’i fesur ar sail chwarterol.<br>6. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai’r cyfarfodydd gael eu cynnal rhwng Aelodau lleol a Swyddogion</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | arbenigol, a hynny bob 6 neu 12 mis, er mwyn trafod, deall a bwydo i mewn i'r prif brosiectau a strategaethau oedd yn berthnasol i'r ardal/ward roeddent yn ei chynrychioli.<br><br>7. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r argymhellion gan Adolygiadau Ymarfer (a elwir erbyn hyn yn Adolygiadau Diogelu Unedig Unigol) yr ymgymerir â hwy gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg gael eu cynnwys ar yr Olrheiniwr Rheoleiddio yr adroddir arno i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer monitro.<br><br>**<u>Gwybodaeth Ychwanegol</u>**<br><br>8. Mewn perthynas â'r ymarfer ail-dendro yr ymgymerwyd ag ef er mwyn ailddatblygu Pafiliwn Porthcawl, gwnaeth y Pwyllgor **gais** am ymateb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r Aelod Cabinet ar gyfer Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai mewn perthynas â'r canlynol:<br>a. p'un a oedd y rhesymau ar gyfer y cytundeb cyntaf aflwyddiannus wedi cael eu dadansoddi'n gywir a bod gwersi wedi eu dysgu;<br>b. p'un a oedd yr ymarfer ail-dendro yn digwydd ar hyn o bryd, ac os felly, pryd y rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau; a<br>c. ph'un ai ydynt yn hyderus na fydd y sefyllfa yn codi eto.<br><br>9. Gwnaeth y pwyllgor **gais** am adroddiad rhoi gwybodaeth oedd yn rhoi manylion am faint oedd yn manteisio o gefnogaeth Dechrau'n Deg, cynnydd wrth gyflwyno'r rhaglen i ardaloedd eraill gan gynnwys manylion ynghylch pam maent wedi cael eu dewis a diweddariad ar leoliadau cyfredol a newydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Rhagfyr 2024 |

**138. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Wedi iddynt roi ystyriaeth i'r adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo ei Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, yn ddibynnol ar gynnwys yr argymhellion isod, nodi y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg Pwnc a Chraffu yn Atodiad C, D ac E, a nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion er mwyn olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B: |

| | |
|---|---|
| | 1. Trafododd y Pwyllgor ymateb y Cyngor i'r storm ddiweddar, Darragh, gan fynegi pryderon ynghylch y patrwm cynyddol o stormydd oedd yn taro'r DU ac **argymhellodd** y dylai Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 wneud cais am adroddiad i archwilio pa mor barod yw'r Cyngor o ran gallu ymateb i stormydd a thywydd garw, y mesurau ataliol yn erbyn difrod rhagweladwy a thraweffaith tywydd garw ac unrhyw niwed yn dilyn hynny (e.e. colli ynni) ar drigolion bregus. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r adroddiad gynnwys gwahoddedigion o'r Adran Gymunedau a Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>2. Mynegodd y pwyllgor bryderon mawr ynghylch perfformiad Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ac roedd yn ystyried ei fod yn cynrychioli risg corfforaethol sylweddol i'r Cyngor. Gan hynny roedd y Pwyllgor yn **argymell** y dylai Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gael ei ychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor cyn gynted ag oedd yn bosib. Cytunodd y Pwyllgor y byddai amserlennu'r Eitem yn cael ei drafod rhwng Cadeiryddion Craffu gyda Swyddogion Craffu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Rhagfyr 2024 |

**139. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Rhagfyr 2024 |

Er mwyn gweld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12:48.